# CAFCASS CYMRU

## YMATEB I WAITH Y GWEITHGOR CYFRAITH GYHOEDDUS

Medi 2019

## Rhagymadrodd

1. Mae Cafcass Cymru wedi bod yn aelod gweithredol o'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus, ac ynghyd â Cafcass mae'n cefnogi'n llawn amcanion y grŵp a'r cyfle i wireddu gwelliannau.

2. Fel aelod o'r Grŵp nid ydym wedi ymateb i bob un o'r 57 argymhelliad craidd na'r 17 o argymhellion hirdymor ond yn hytrach rydym wedi cymryd y cyfle hwn i amlygu rhai o'r prif wahaniaethau sy'n effeithio ar Gymru, ailadrodd pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad pryd yr ydym yn cytuno a thrafod rhai meysydd a allai gael effaith uniongyrchol ar ein swyddogaeth a'n hadnoddau.

3. Mae'r ymateb hwn yn gysylltiedig ag argymhellion y gweithgor cyfraith gyhoeddus ond dylid ei ddarllen mewn cysylltiad â'n hymateb i argymhellion y gweithgor cyfraith breifat. Mae ein cynghorwyr llys teuluol (FCA) yn cynnal llwythi achosion cymysg o gyfraith breifat a chyfraith gyhoeddus a byddai unrhyw argymhellion terfynol gan unrhyw un o'r ddau grŵp a fyddai'n cael effaith ar adnodd yr FCA yn effeithio'n negyddol ar ein gallu i gynnal ein hymrwymiadau.

## Y Cyd-destun Cymreig

4. Mae Cafcass Cymru yn sefydliad o fewn grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Rydym yn atebol i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodir ein swyddogaethau statudol yn adran 35 o Ddeddf Plant 2004. Rydym yn rhoi llais i unrhyw blentyn yng Nghymru sy'n ymwneud â'r system Cyfiawnder Teuluol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Plant 1989 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Dylid nodi er nad yw'r System Cyfiawnder Teuluol wedi ei datganoli, y mae awdurdodau lleol, Cafcass Cymru, addysg ac iechyd wedi eu datganoli - dylai'r realiti hwn gael ei gydnabod a'i barchu.

5. Yn dilyn adborth ymgynghoriad, dylai argymhellion dilynol sy'n awgrymu newid, ddeillio o dystiolaeth yn hytrach na gwybodaeth anecdotaidd. Dylai unrhyw ganllawiau arferion da sydd ag effaith uniongyrchol ar arfer a phlant a'u teuluoedd gynnwys y sefydliadau hynny sydd ar waith eisoes sy'n gweithio i wella canlyniadau i blant. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Cafcass Cymru fel corff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith

hirdymor ein penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd ac mae'n amlygu'r angen i gydweithio i gyflawni canlyniadau da. Mae gennym gysylltiadau gweithio da gyda:

- Cymdeithas Maethu a Mabwysiadu (AFA) Cymru
- Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHoCS)
- CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Yr Is-adran Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc (FJYPB)
- Cymorth Menywod Cymru

6. Mae pob un o'r asiantaethau hyn yn rhannu gwybodaeth am arferion da a chanlyniadau ymchwil a dylent ymwneud â chyd-gynhyrchu canllawiau arferion da. I sicrhau cydweithredu amlasiantaeth dylai unrhyw ganllawiau arferion da gael eu cyhoeddi gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Cenedlaethol, ac i'r perwyl hwn rydym yn cefnogi'n gryf arsylwadau Cafcass yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ynghylch swyddogaeth hanfodol Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol wrth helpu i ysgogi ac ymwreiddio'r newidiadau sydd eu hangen.

## Ymateb i'r Argymhellion

### Gwneud Penderfyniadau-Awdurdodau Lleol / Y Broses Cyn-achos ac Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO)

7. Rydym yn cefnogi'r bwriad i rannu arferion da a chanllawiau disgwyliadau ynghylch llwybrau gwneud penderfyniadau, ond awgrymwn eu bod wedi eu cyfyngu i "egwyddorion" yn hytrach na modelau manwl. Byddai'r dull o weithredu hwn yn osgoi'r broblem ynghylch sut y penderfynir pa un a yw model gwasanaeth wedi ei 'brofi' neu beidio a byddai hefyd yn atal rhag i'r canllawiau terfynol fod yn rhy faith.

8. Mae Cafcass Cymru yn cefnogi'r pwyslais o'r newydd ar waith cyn-achos fel yr amlygir gan "*The Case for Clear Blue Water*" gan Isabelle Trowler. Mae magu perthynas â theuluoedd o'r pwys mwyaf er mwyn cyflawni ymgysylltiad cadarnhaol a gallu rheoli risg yn y gymuned. Rydym yn cytuno y dylid cryfhau'r prosesau cyn-achos i wella trafodaethau gyda'r teuluoedd ynghylch gofal amgen a all ddarparu dewisiadau eraill diogel a chynaliadwy sy'n ymwneud â'r teulu yn lle gofal cyhoeddus a dylai hyn gynnwys manylion llawnach ynghylch cyllid a'r cymorth sydd ar gael.

9. Rydym yn cydnabod diffyg cysondeb ar draws rhanbarthau o ran Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) ac yn croesawu'r ymgyrch i gryfhau ansawdd a

chysondeb gwasanaethau'r IRO fel y caiff ei hyrwyddo yn y ddogfen o 2018 "*Safonau Ymarfer a Chanllaw Ymarfer Da. Adolygu a monitro Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 plentyn neu berson ifanc*". Byddwn yn cefnogi awdurdodau lleol yn gyson gan weithredu'r canllawiau hyn ledled Cymru.

10. Mae llais y plentyn yn ganolog i swyddogaeth Cafcass Cymru ac rydym yn cytuno y dylai fod mwy o bwyslais yn ystod y cyfnod cyn-achos ar gael a chofnodi dymuniadau a theimladau pob plentyn yn unigol ac rydym yn credu bod hyn yn rhan annatod o swyddogaeth y gweithiwr cymdeithasol. Rydym yn cefnogi defnyddio deunydd Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc (FJYPB) a '*gair i gall'* i gryfhau hyn.

11. Mae Cafcass Cymru yn croesawu hysbysiad cynnar ynghylch materion yn ymwneud â babanod newydd-anedig, er ei fod yn fater o drefn mewn rhai ardaloedd, nid yw'n gyson. Byddai Cafcass Cymru yn croesawu'r cyfle i weithio ochr yn ochr â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHoCS) i ddatblygu canllaw arferion da yn gysylltiedig â hyn, wedi ei gefnogi gan y gwaith sydd ar y gweill gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn y maes hwn.

12. Mae deddfwriaeth bresennol yn ein hatal rhag cymryd rhan mewn unrhyw broses cyn-achos, felly gallai cymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn y cyfnod cynnar iawn hwn efallai beryglu ein swyddogaeth annibynnol a byddai'n ychwanegu lefel arall o graffu i'r awdurdod lleol. Ein barn ni yw mai swyddogaeth yr awdurdod lleol yw'r gwaith cyn-achos a dylem ni alluogi gweithwyr cymdeithasol yn y swyddogaeth hon i fod yn gymwys yn y gwaith hwn. Petai newid deddfwriaethol mewn cysylltiad â hyn, byddai angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon.

13. Gellir egluro'r swmp o geisiadau cyfraith gyhoeddus sy'n mynd i'r llysoedd yn rhannol gan y ffaith bod y broses o nodi pryderon diogelu wedi gwella oherwydd ymgyrchoedd ymwybyddiaeth digidol a'r ffaith bod asiantaethau partner yn dod yn fwy medrus wrth adnabod arwyddion o gam-drin ac esgeulustod. Mewn cysylltiad â hyn, mae prinder gweithlu ac mae llawer o ymarferwyr diogelu rheng flaen yn brin o brofiad ac o bosib yn brin o hyder wrth reoli risg mewn cymuned. Fe fyddai'n fuddiol felly i sgiliau, gwybodaeth a hyder gwaith cymdeithasol wella er mwyn rheoli risg yn y gymuned yn ddiogel. Gallai defnyddio goruchwylio myfyriol a goruchwylio grŵp i gynyddu gwybodaeth a magu hyder fod yn werthfawr ynghyd â hyfforddiant asesu risg yn ddadansoddol.

## Y Cais

14. Mae'r arfer o hysbysu Cafcass Cymru yn gynnar, fel sydd wedi ei sefydlu mewn rhai ardaloedd, wedi bod yn effeithiol a dylid ei weithredu'n gyson ymhob ardal.

15. Mae ein data yn dangos bod y mwyafrif o geisiadau gofal yng Nghymru yn cael eu cyflwyno ar fyr rybudd. Yn y flwyddyn 2018-19 roedd 50% o geisiadau a31 yn rhai ar fyr rybudd, gyda'r flwyddyn hon hyd yn hyn (19-20) yn dangos 52.5%. Oherwydd hyn rydym, yn bwriadu cynnal archwiliad mewnol i archwilio'r ffactorau y tu ôl i'r ffigurau. Rydym yn croesawu ffaith fod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) yn bwriadu cyflwyno'r C110 electronig pryd y bydd angen rhoi eglurhad os bydd cais am wrandawiad brys – er y byddwn yn dymuno i hyn ddilyn llwybr carlam os yn bosib. Pan na cheir rheswm cryf dros wrandawiad brys mae'n hanfodol glynu wrth yr amserlenni a bennwyd er mwyn i blant a phobl ifanc gael y gwasanaeth gorau posib gan Cafcass Cymru o ran sefydlu dymuniadau a theimladau a chynnal ymholiadau perthnasol i lywio dadansoddiad cryf ar gyfer y llys ac i sicrhau bod y Gwrandawiad Rheoli'r Achos mor effeithiol â phosib.

16. Yn unol â Cafcass rydym yn cefnogi'r angen i adolygu'r Templed Tystiolaeth Gwaith Cymdeithasol (SWET), ond byddwn yn gofyn i unrhyw waith o'r fath gynnwys awdurdodau lleol Cymru a Lloegr.

**Rheoli Achos**

17. Rydym yn cydnabod yr anghysondeb ledled Cymru o ran y nifer o orchmynion gofal a wneir ar gyfer plant a leolir gyda pobl â chyfrifoldebau rhieni. Dylid archwilio'r rhesymau y tu ôl i'r gwahaniaethau ac enghreifftiau arferion da o bryd y mae'n addas i ddefnyddio'r gorchymyn hwn a phryd y mae gorchymyn amgen yn fwy addas. Fe fyddai o fudd bod yn eglur ynghylch ffurf Cynllun Gofal a Chymorth cadarn i gefnogi'r argymhelliad i gael gorchymyn goruchwylio a'r system adolygu i sicrhau fod gan hwn ddull o graffu annibynnol i bennu'r camau nesaf a allai fod yn swyddogaeth ychwanegol i'r IRO.

18. Mae Harwin[1] yn awgrymu pan fo angen dulliau cryfach na'r ddyletswydd i "gynghori, cynorthwyo a dod yn gyfaill iddynt" i gael cydweithrediad rhieni, nad yw gorchymyn goruchwylio yn addas.

19. Mae unrhyw orchymyn gofal a wneir i roi plentyn yng nghartref rhywun â chyfrifoldeb rhiant (PR) angen adolygiad parhaus gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol i ystyried diddymu'r gorchymyn pan nad yw'n gymesur mwyach.

20. Mae dilyniant barnwrol ar gyfer cysondeb rheoli achos yn hanfodol ac rydym yn cefnogi'r argymhelliad na ddylai mwy na dau farnwr fod yn ymwneud ag unrhyw un achos.

---

[1] Harwin et al 2019 (mewn ymchwil ynghylch 'Contribution of Supervision Orders and Special Guardianship to Children's Lives and Family Justice')

21. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd annibyniaeth farnwrol ond cytunwn y dylai fod mwy o gysondeb yn y dull gweithredu barnwrol o ran rheoli achos a natur y gorchmynion a wneir wrth ddod ag achosion i derfyn.

22. Rydym yn cydnabod bod arfer yn amrywio ledled Cymru o ran rhestru gwrandawiad terfynol cyn gwrandawiad datrys materion effeithiol. Er hynny, pan fo hyn wedi digwydd mae wedi helpu i lynu wrth yr amserlen 26 wythnos a sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol a phartïon sydd eu hangen ar gael.

23. Mae'n rhaid i unrhyw estyniad i'r terfyn 26 wythnos ar gyfer achosion fod â buddion lles i'r plentyn er mwyn osgoi gadael i bethau lithro'n ddiangen. Rydym yn cydnabod bod achlysuron pan fo hyn yn digwydd serch hynny, byddai angen adolygu unrhyw estyniad i amserlen y llys yn ofalus.

24. Nid oes gan Cafcass Cymru unrhyw ddata dibynadwy ynghylch defnyddio tystion arbenigol ac rydym yn y broses o gynnal archwiliad mewnol i gasglu gwybodaeth ynghylch defnyddio arbenigwyr yng Nghymru a pha un a yw'r arbenigwyr a benodir yn darparu gwybodaeth arbenigol sydd y tu hwnt i arbenigedd y gweithiwr cymdeithasol a/neu warcheidwad y plant a phan fo angen, bod y llys yn pennu dyfodol y plentyn.

**Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig**

25. Mae'r ddarpariaeth o gefnogaeth gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru yn cael ei rheoli gan y Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 (diwygiwyd yn 2018) a'r Cod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig. Er hynny rydym yn derbyn bod y ddarpariaeth o wasanaethau ledled Cymru yn amrywio'n sylweddol.

26. Rydym yn cytuno â Harwin na ddylai gorchmynion goruchwylio gael eu gwneud gyda gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig. Dylid nodi pob cymorth sydd ei angen ar ôl cynnal asesiad risg grymus i lywio Cynlluniau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig (SGSP) wedi eu teilwra i anghenion unigol. Yng Nghymru, mae AFA Cymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gefnogir gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHoCS) ar fin cyhoeddi gwaith ynghylch "cynnig safon ofynnol" o gymorth i warcheidwaid arbennig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac i edrych yn arbennig ar anghenion y plentyn ac i gynnwys cysylltiad diogel â'r rhieni. Mae Cyfraith Cymru'n ganolog i'r dull hwn o weithredu, ac mae wedi ei ddyfeisio'n arbennig i grynhoi a datblygu dull o weithredu cymorth gwarcheidiaeth arbennig i Gymru gyfan.

27. Rydym yn cytuno â'r defnydd o Gynhadledd Grŵp Teulu (neu rywbeth cyfatebol) i nodi yn y cyfnod cynnar, warcheidwaid arbennig posib ar gyfer plant a allai fod angen gofal diogel gwahanol. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn rhan o'r gwaith cyn-achos. Rydym yn cymeradwyo'r defnydd o Grŵp Hawliau Teulu; Asesiad Cychwynnol Gofal Teulu a Chyfeillion; Canllawiau Arferion Da.

28. Rydym yn croesawu'r Canllawiau ar Warcheidwaeth Arbennig dros dro a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Y Cyngor Cyfiawnder Teuluol.

29. Mae Cafcass Cymru yn credu y dylai plant gael perthynas gyda'r gofalwr sy'n cael ei ystyried yn warcheidwad arbennig ac rydym yn derbyn efallai na fydd y berthynas hon wedi ei sefydlu cyn yr amserlen 26 wythnos ar gyfer yr achos. Byddem yn croesawu cyfrwng i wneud hyn yn bosib serch hynny mae gennym amheuon ynghylch yr awgrym o gael "Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig Dros Dro" a fyddai angen newid mewn deddfwriaeth sylfaenol. Rydym yn ystyried y dylai rheoliadau maethu presennol fod yn hyblyg i gyflawni'r cynllun gorau ar gyfer y plentyn.

30. Ynghyd â Cafcass, rydym gan fwyaf yn cytuno â chanfyddiadau adolygiad Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield – dan arweiniad Coram/BAAF - o Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO), a lywiodd gwaith y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus – er gan nodi nad yw'r astudiaeth yn adlewyrchu data Cymru, rheoliadau Cymru (sy'n wahanol i'r rhai yn Lloegr), na natur datganoledig gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn gweithio i fynd i'r afael â'r diffygion hynny.

**Adran 76 (Adran 20)**

31. Rydym yn cytuno fod defnyddio a76 yn adnodd priodol i awdurdodau lleol a dylid ei ddefnyddio yn yr amgylchiadau cywir pan fo cynllun wedi ei gytuno i roi cymorth i'r teulu a chynllun eglur ynghylch pryd i ddod â a76 i ben neu pryd i gyflwyno achos. Rydym yn croesawu'r angen am gymorth a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol a dylid datblygu canllawiau arferion da drwy AWHoCS a'u rhannu drwy Fyrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol.